

**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C**  
13 Mehefin 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

**Cyfarfod Rhif 367**

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

## **Sylwadau agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

### **1. Datganiad o ddiddordeb**

- 1.1 Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

### **2. Cofnodion cyfarfod 366 (16 Mai 2013) a materion yn codi**

#### **2.1 Cofnodion cyfarfod 366**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 366.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

#### **2.2 Materion yn codi**

- 2.2.1 Nodwyd y canlynol:

- 2.2.2 [**Crynodeb:** Trafodwyd y polisi i ddarparu gwybodaeth am gyfarfodydd yr Awdurdod.]

#### **2.2.3 Mesuriadau Perfformiad**

Nododd PW bod swyddogion wedi cytuno gyda swyddogion Ymddiriedolaeth y BBC y dylid defnyddio'r mesur 3 munud wythnosol fel y prif fesur ar gyfer cyrhaeddiad S4C.

2.2.4 **Canllawiau Iaith Rhaglenni**

[**Crynodeb:** Gobeithir trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cylch yr Iaith i drafod Canllawiau Iaith Rhaglenni S4C.]

2.2.5 **Diweddariad ar y Gronfa Ddigidol**

Holwyd am berthynas Cronfa Ddigidol S4C a Chronfa Ddatblygu Ddigidol Llywodraeth Cymru. Esboniodd EM bod dymuniad i gydweithio gyda chronfa'r Llywodraeth lle'n briodol.

2.2.6 **Adroddiad Ymchwil Misol**

Nodwyd bod y gwaith o ystyried dulliau ar gyfer mesur sy'n cyfateb i gyrhaeddiad 3 munud wythnosol ar gyfer ein gwasanaeth Clic yn parhau.

2.2.7 **[Defnydd o Drydar]**

[**Crynodeb:** Roedd y swyddogion wedi drafftio canllawiau ar gyfer y defnydd o rwydweithiau cymdeithasol a bwriedir cynnal trafodaeth gyda'r staff amdanynt.]

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y mater canlynol.

3.2 **Y Comisiwn ar Ddatganoli (Comisiwn Silk)**

Cafwyd trafodaeth am dystiolaeth ysgrifenedig S4C i Gomisiwn Silk. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn yn ystod sesiwn lle'r oedd ECS hefyd wedi rhoi tystiolaeth ar ran Ymddiriedolaeth y BBC.

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

4.1 **Ystyried Cydleoli ac Adleoli gweithgareddau S4C**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd papurau, a chynhaliwyd trafodaeth estynedig ar y materion hyn mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod a gynhaliwyd ar y noson cynt a chynhaliwyd trafodaeth bellach yn y cyfarfod hwn. Yn dilyn y trafodaethau hyn, ac yn amodol ar gyflawni nifer o egwyddorion a nodwyd yn y cyfarfod, cymeradwyodd yr Awdurdod yr egwyddor o adleoli nifer o staff S4C o fewn pencadlys newydd ar y cyd gyda phartneriaid perthnasol y tu allan i Gaerdydd ("Adleoli") a chydleoli gwasanaethau darlledu technegol a nifer o staff S4C mewn canolfan newydd ar y cyd gyda'r BBC ym Mae Caerdydd ("Cydleoli").]

4.2 **Adolygiad Gwariant**

Nodwyd y byddai Canghellor y Trysorlys yn cyhoeddi canlyniadau Adolygiad Gwariant 2015-16 ar 26 Mehefin. Roedd S4C wedi cyhoeddi datganiad am gasgliadau ymchwil annibynnol ar werth economaidd S4C. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr hefyd yn gobeithio cynnal cyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol DCMS i drafod effaith toriadau posibl ar wasanaethau S4C a dyletswydd statudol DCMS i ddarparu arian digonol i S4C.

**5. Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Cyflwynodd RhT adroddiad llafar yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd yn gynharach.

[**Crynodeb:** Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2012 a Chynllun Gwaith yr Archwilwyr ar gyfer 2013 eu cyflwyno i'r Pwyllgor.]

**6. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2012**

**6.1 Adroddiad Blynyddol 2012**

Cyflwynodd PW yr Adroddiad Blynyddol diwygiedig ar gyfer 2012. Roedd Adroddiad y Cadeirydd wedi ei gynnwys yn y drafft hwn a bydd Adroddiad y Prif Weithredwr yn cael ei gynnwys, yn dilyn cyhoeddiad yr Adolygiad Gwariant.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol drafft a phenderfynwyd y bydd swyddogion yn diweddarau'r adroddiad yn seiliedig ar unrhyw sylwadau pellach a dderbynnir gan yr Aelodau.

**6.2 Datganiad Ariannol 2012**

Cyflwynwyd drafft o Ddatganiad Ariannol 2012. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y Datganiad Ariannol a phenderfynwyd cyflwyno'r Datganiad Ariannol i'r Awdurdod ar sail nifer o fan newidiadau a argymhellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn gynharach. Nodwyd bod yr Archwilwyr Allanol hefyd wedi cymeradwyo'r Datganiad Ariannol. Cymeradwyodd yr Awdurdod Ddatganiad Ariannol 2012.

**7. Gwerthuso Effeithlonrwydd yr Awdurdod**

7.1 Cyflwynodd y Cadeirydd argymhellion ar gyfer datblygu effeithlonrwydd yr Awdurdod. Roedd y sylwadau a'r argymhellion yn seiliedig ar drafodaethau'r Cadeirydd gyda'r Aelodau ac aelodau'r Tîm Rheoli.

7.2 Cyfeiriwyd at fformat a chynnwys papurau'r Awdurdod a'i Bwyllgorau, a nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod papurau ar gyfer pob cyfarfod yn cael eu darparu'n amserol ac yn brydlon. Cafwyd trafodaeth am systemau electronig ar gyfer cylchredeg papurau gan nodi cost sylweddol system o'r fath. Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cymharu'r gost o baratoi copïau caled o bapurau ar gyfer bob cyfarfod yn erbyn cost gosod a gweithredu system electronig.

7.3 Cymeradwywyd yr argymhelliad i ddechrau cyfarfodydd yr Awdurdod am 9.30 y.b. a pharhau tan 4.00 y.h. gan anelu at glustnodi sesiwn y prynhawn ar gyfer trafodaeth ar bwnc arbennig. Nodwyd pe cynhelir cyfarfod o un o bwyllgorau'r Awdurdod cyn cyfarfod yr Awdurdod, yna byddai cyfarfod yr Awdurdod yn dechrau am 10.00 y.b.

7.4 Cafwyd trafodaeth am fformat a gwaith Pwyllgorau'r Awdurdod. Nodwyd bod elfen o ddyblygu yn bosibl ar adegau rhwng y drafodaeth yn y Pwyllgor Cynnwys a'r drafodaeth yn yr Awdurdod am gynnwys a pherfformiad y gwasanaeth.

7.5 Cafwyd trafodaeth am sut i werthuso perfformiad ymgyrchoedd a digwyddiadau hyrwyddo, a phenderfynwyd y dylid ychwanegu sesiwn Gwerthuso Effeithlonrwydd y Strategaeth Gyfathrebu i raglen waith yr Awdurdod yn flynyddol.

7.6 Penderfynwyd hefyd i ychwanegu sesiwn drafod cyffredinol am ddyfodol S4C ac

amgylchfyd y cyfryngau newydd i raglen waith yr Awdurdod.

7.7 **[Crynodeb:** Trafodwyd adroddiad ar faterion personél S4C.]

7.8 Nodwyd bod rhai o argymhellion adroddiad Shortridge yn ymwneud â rheolau sefydlog heb eu cwblhau hyd yma. Penderfynwyd y dylai swyddogion gyflwyno fersiwn bellach o'r Rheolau Sefydlog diwygiedig i'r Awdurdod.

## 8. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig gan gyfeirio at nifer o raglenni diweddar. Yn ôl yr arfer bwriedir bwrw golwg dros Cariad@Iaith a rhaglenni Eisteddfod yr Urdd.]

## 9. **Adroddiad Ymchwil Misol**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol. Trafodwyd mesuriadau cyrhaeddiad a nodwyd nad oedd modd cofnodi lleoliad gwylwyr ar lein ar hyn o bryd.]

## 10. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

10.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y materion isod:

10.2 Rhoddodd GLL ddiweddariad am bresenoldeb S4C yn nigwyddiadau'r haf. Cynhaliwyd Sioe Cyw ar Fferm Folly dros Wŷl y Banc a derbyniwyd ymateb positif iawn i'r sioe gan y gynulleidfa a Fferm Folly.

10.3 Cafwyd trafodaeth am yr ymgyrch hyrwyddo ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a gweithgareddau S4C ar y maes. Nodwyd bod sioe Cyw yn boblogaidd drwy'r wythnos a chynhaliwyd sawl lansiad llwyddiannus yn adeilad S4C yn ystod yr wythnos.

10.4 Nodwyd y cynhelir y Noson Gwylwyr nesaf yn Y Bala ar 3 Gorffennaf.

## 11. **Adroddiad Ariannol Misol**

Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol misol.

## 12. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth**

12.1 Cyflwynodd JD adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 4 Mehefin.

### 12.2 **Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor**

Cyflwynodd JD Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi argymhell diweddariadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor er mwyn cynnal o leiaf dau gyfarfod bob blwyddyn.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cylch Gorchwyl diwygiedig.

### 12.3 **Proses Gwynion ddiwygiedig drafft ar gyfer S4C**

Roedd y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth bellach i Broses Gwynion ddiwygiedig drafft ar gyfer S4C.

[**Crynodeb:** Cyflwynodd JD grynodeb o gasgliadau'r Pwyllgor a'r camau nesaf.]

12.4 **Diweddariad ar gwynion wedi eu hystyried gan y Pwyllgor**

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar y cwynion dan ystyriaeth ar hyn o bryd.]

13. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

13.1 Nodwyd yr adroddiad cwynion.

13.2 Cyflwynwyd yr adroddiad Gwifren Gwylwyr a chyfeiriwyd at y mater canlynol:

Roedd y Wifren wedi derbyn sawl cwyn oddi wrth wylwyr oedd wedi gwyllo'r arlwy o Eisteddfod yr Urdd gyda sylwebaeth Saesneg yn hytrach na'r sylwebaeth Gymraeg. Nodwyd bod problem hanesyddol yn gyfrifol am hyn a bod angen i wylwyr newid dewislen ar y teledu er mwyn derbyn sylwebaeth yn y Gymraeg yn awtomatig. Roedd y Wifren yn ceisio esbonio'n uniongyrchol i wylwyr sut i newid dewislen y teledu, ac y byddai swyddogion hefyd yn ystyried ymgyrch ar gyfer hyrwyddo sut i osod iaith y sylwebaeth ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

14. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Gorffennaf 2013 yng Nghaerdydd.